



Adran Gwaith
a Phensiynau

Taliad Annibyniaeth Personol

Ffurflen gais

Dyma gam cyntaf y broses o wneud cais am Taliad Annibyniaeth Personol.

Dylai ceisiadau i Taliad Annibyniaeth Personol dim ond cael eu gwneud ar ffurflen wreiddiol a ddarparwyd a chymeradwywyd gan yr Adran. Mae'r ffurflen hon wedi cael ei phersonoli ar gyfer y person a wnaeth gais amdani a gall ddim ond ei defnyddio i hawlio Taliad Annibyniaeth Personol ar gyfer y person hwn. Ni chaiff llungopiau eu derbyn fel ceisiadau dilys.

Sut i llenwi'r ffurflen

Defnyddiwch feiro. Os byddwch yn gwneud camgymeriad, rhowch groes drwyddo. Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.

Atebwch bob cwestiwn sy'n berthnasol i chi.

Amdanoch chi

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall, dywedwch wrthym **amdano ef neu amdani hi**, nid amdanoch chi.

Cyfenw neu enw teuluol

Enwau eraill

Teitl

Er enghraifft, Mr, Mrs, Miss, Ms

Rhowch yr enw rydych am i ni ei ddefnyddio wrth ysgrifennu atoch, os yw'n wahanol i'r uchod.

Er enghraifft, os oes gennych deitl gwahanol, neu lythrennau ar ôl eich enw, fel Syr John Smith BSc.

Cyfenw blaenorol

Dywedwch wrthym am unrhyw gyfenw arall rydych wedi cael eich adnabod wrtho. Os ydych wedi cael mwy nag un cyfenw blaenorol, rhowch y cyfenw y gwnaethoch ei ddefnyddio ddiwethaf.

Amdanoch chi parhad

Rhif Yswiriant Gwladol (YG)

Gallwch ddod o hyd i hwn ar eich cerdyn rhif Yswiriant Gwladol, eich slipiau cyflog neu lythyrau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Llythrennau Rhifau

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------	----------------------

Llythyren

Dyddiad geni

Defnyddiwch y fformat **dd/mm/bbbb** i roi'r dyddiadau ar y ffurflen hon.

<input type="text"/>	/	<input type="text"/>	/	<input type="text"/>	<input type="text"/>
----------------------	---	----------------------	---	----------------------	----------------------

Rhyw

<input type="checkbox"/>	Gwryw
<input type="checkbox"/>	Benyw

Cyfeiriad

<input type="text"/>
<input type="text"/>
<input type="text"/>
<input type="text"/>

Cod post

Os na allwn ysgrifennu atoch yn y cyfeiriad hwn, rhowch gyfeiriad y gallwn ysgrifennu ato.

Cyfeiriad y gallwn ysgrifennu ato

<input type="text"/>
<input type="text"/>
<input type="text"/>
<input type="text"/>

Cod post

Amdanoch chi parhad

Rhif ffôn y gallwn gysylltu â chi neu adael neges.

Cofiwch gynnwys y cod deialu.

Ticiwch y blwch sy'n berthnasol. Os mai rhif ffôn symudol yw eich rhif cartref, ticiwch **Ffôn symudol**.

Os oes gennych ffôn symudol, byddwn yn anfon negeseuon testun atoch i'ch diweddaru ar sut mae pethau'n symud ymlaen – mae'n ffordd gyflym a hawdd i'ch diweddaru.

A fyddai'n well gennych ddewis peidio cael y gwasanaeth hwn?

Cartref Ffôn symudol Gwaith

Byddai

Na

A oes rhif ffôn arall y gallwn ei ddefnyddio i gysylltu â chi?

Rhif ffôn

Cofiwch gynnwys y cod deialu.

Ticiwch y blwch sy'n berthnasol.

Cartref Ffôn symudol Gwaith

Rhif ffôn testun

Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol. Maent ar gyfer pobl na allant siarad neu glywed yn glir.

Sut y byddai'n well gennych i ni gysylltu â chi? Drwy lythyr

Byddwn yn defnyddio'r ffordd hon Dros y ffôn pryd bynnag y gallwn.

A oes angen gohebiaeth arnoch mewn fformat arall fel print bras, braille neu CD sain?

Oes Dywedwch wrthym ba fformat:

Print bras

Braille

CD sain

Na

Os ydych yn byw yng Nghymru, ydych chi am i ni gyfathrebu â chi yn Gymraeg?

Ydw

Na

Llofnodi'r ffurflen ar ran rhywun arall

Gallwch lenwi'r ffurflen ar ran rhywun arall, ond rhaid iddo ei llofnodi ei hun oni bai:

- eich bod eisoes wedi cael eich penodi'n gyfreithiol i gael ac ymdrin â'i fudd-daliadau. Hynny yw, rydych yn benodai budd-dal, dirprwy neu'n meddu ar Bŵer Atwrnai, neu
- bod y person rydych yn gwneud cais ar ei ran yn rhy sâl neu'n anabl i wneud cais ei hun ac rydych am gael eich penodi i gael ac ymdrin â'i fudd-daliadau, neu
- eich bod yn gwneud cais ar ei ran o dan y rheolau arbennig ar gyfer pobl sydd â salwch terfynol

Ydych chi'n llofnodi'r ffurflen ar ran rhywun arall?

Ydw Parhewch isod.

Na Ewch i **tudalen 6**.

Pam rydych yn llofnodi'r ffurflen ar ei ran?

Dewiswch un o'r canlynol.

Rwy'n benodai, wedi'i benodi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau

Mae gennyf Bŵer Atwrnai

Rwy'n Ddirprwy

Rwy'n Diwtor (o dan y gyfraith yn yr Alban)

Rwy'n Warcheidwad (o dan y gyfraith yn yr Alban)

Rwy'n Warcheidwad cyfreithiol neu'n Oruchwyliwr barnwrol (o dan y gyfraith yn yr Alban)

Rwy'n Gorff Corfforaethol Dros Dro neu'n Benodai Corfforaethol

Er enghraifft, sefydliad a benodwyd i weithredu ar ran y person y mae'r budd-dal ar ei gyfer fel awdurdod lleol neu gwmni cyfreithwyr.

Rhowch enw eich sefydliad:

Oni bai ein bod eisoes wedi gweld yr awdurdod hwn, bydd angen i ni ei weld cyn y gallwn brosesu'r cais hwn. Anfonwch eich pŵer atwrnai neu unrhyw ddogfennau perthnasol eraill atom gyda'r cais hwn. Gallwch anfon y ddogfen wreiddiol, neu gopi wedi'i ardstio.

Rwyf am gael fy mhenodi i weithredu ar ei ran

Ticiwch y blwch hwn os oes un o'r canlynol yn berthnasol

- mae'r person rydych yn gwneud cais ar ei ran yn rhy sâl neu'n rhy anabl i wneud cais ei hun ac rydych am gael eich penodi i ymdrin â'i fudd-daliadau, neu
- rydych yn y broses o ddod yn gynrychiolydd a benodir yn gyfreithiol.

Byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â hyn.

Rwy'n gwneud cais ar ei ran o dan y rheolau arbennig ar gyfer pobl sydd â salwch terfynol

Mae'r rheolau arbennig ar gyfer pobl sydd â salwch terfynol yn berthnasol i bobl sydd â chlefyd cynyddol ac na ddisgwylir iddynt fyw yn hirach na chwe mis. Efallai y byddwch am roi gwybod i'r person y mae'r budd-dal hwn ar ei gyfer am y cais hwn. Mae hyn oherwydd y byddwn yn anfon llythyrau at y person hwn ynghylch y Taliad Annibyniaeth Personol.

Llofnodi'r ffurflen ar ran rhywun arall parhad

Os ydych yn llofnodi'r ffurflen ar ran rhywun arall, dywedwch wrthym am eich manylion **chi** yma.

Cyfenw neu enw teuluol

Enwau eraill

Teitl

Er enghraifft, Mr, Mrs, Miss, Ms

Rhowch yr enw rydych am i ni ei ddefnyddio wrth ysgrifennu atoch, os yw'n wahanol i'r uchod.

Cyfeiriad

Cod post

Os na allwn ysgrifennu atoch yn y cyfeiriad hwn, rhowch gyfeiriad y gallwn ysgrifennu ato.

Cyfeiriad y gallwn ysgrifennu ato

Cod post

Rhif ffôn y gallwn gysylltu â chi neu adael neges. Cofiwch gynnwys y cod deialu. Os mai rhif ffôn symudol yw eich rhif cartref, ticiwch **Ffôn symudol**.

Cartref

Ffôn symudol

Gwaith

Os oes gennych rif ffôn symudol efallai y byddwn yn defnyddio'r rhif hwn i anfon negeseuon testun atoch i adael i chi wybod sut mae eich cais PIP yn mynd ymlaen.

A oes rhif ffôn arall y gallwn ei ddefnyddio i gysylltu â chi?

Rhif ffôn

Cofiwch gynnwys y cod deialu.

Ticiwch y blwch sy'n berthnasol.

Cartref

Ffôn symudol

Gwaith

Rhif ffôn testun

Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol. Maent ar gyfer pobl na allant siarad neu glywed yn glir.

Sut y byddai'n well gennych i ni gysylltu â chi?

Drwy lythyr

Dros y ffôn

Byddwn yn defnyddio'r ffordd hon pryd bynnag y gallwn.

A oes angen gohebiaeth arnoch mewn fformat arall fel print bras, braille neu CD sain?

Oes

Dywedwch wrthym ba fformat:

Print bras

Braille

CD sain

Na

Os ydych yn byw yng Nghymru, ydych chi am i ni gyfathrebu â chi yn Gymraeg?

Ydw

Na

Cenedligrwydd

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall, dywedwch wrthym amdanynt **hwy**, nid chi.

Beth yw eich cenedligrwydd?

Er enghraifft, Prydeinig,
Gwyddelig, Twrcaidd, Sbaenaidd.

Os ydych **yn Brydeinig, yn Wyddelig, yn Swisaidd** neu'n wladolyn o unrhyw un o'r gwledydd hyn, ewch i **tudalen 8**.

Awstria

Bwlgaria

Cyprus

Denmarc (ond nid Ynysoedd Ffaro ac nid Ynys Las)

Estonia

Ffrainc (gan gynnwys Corsica, Guadeloupe, Martinique,
Reunion a Guiana Ffrengig, ond nid Monaco)

Groeg (gan gynnwys Creta ac Ynysoedd Groeg)

Gweriniaeth Tsiec

Gwlad Belg

Gwlad Pwyl

Gwlad yr Iâ

Hwngari

Latfia

Liechtenstein

Lithwania

Lwcsembwrg

Malta

Norwy

Portiwgal

Romania

Sbaen (gan gynnwys yr Ynysoedd Baleares, yr Ynysoedd
Dedwydd a Sbaen o Cueta a Melilla)

Slofacia

Slofenia

Sweden

Y Ffindir (ond nid Ynysoedd Aland)

Yr Almaen

Yr Eidal (gan gynnwys Sisili, Sardinia ac Elba ond nid Dinas y
Fatigan na San Marino)

Yr Iseldiroedd

Os **nad ydych** yn Brydeinig, yn Wyddelig, yn Swisaidd neu'n wladolyn o unrhyw un o'r gwledydd ar y rhestr, ewch i **tudalen 7**.

Cenedligrwydd parhad

- a Ydy'ch pasbort, neu unrhyw ddogfen arall o'r Swyddfa Gartref, yn nodi "Na allwch dderbyn unrhyw arian cyhoeddus"?**

Ydy
Na
Ddim yn gwybod

Edrychwch ar y tudalennu yn eich pasbort a'r dogfennau o'r Swyddfa Gartref ar gyfer y geiriau sy'n nodi "Na allwch dderbyn unrhyw arian cyhoeddus".

- b Pa gyfyngiadau, os o gwbl, sydd ar eich caniatâd i aros?**

Mae 'caniatâd i aros' yn caniatáu i chi aros yn y DU naill ai dros dro ('caniatâd cyfyngedig i aros') neu'n barhaol ('caniatâd amhendant i aros').

Dim cyfyngiadau

Caniatâd cyfyngedig i aros

Wedi gwneud cais am ganiatâd cyfyngedig i aros

Caniatâd amhendant i aros

Dim caniatâd i aros

Ddim yn gwybod

Ewch i **tudalen 8**.

Ewch i **cwestiwn c** isod.

Ewch i **cwestiwn c** a **ch** isod.

Ewch i **tudalen 8**.

Ewch i **tudalen 8**.

Ewch i **tudalen 8**.

- c Pryd mae eich caniatâd i aros yn dod i ben?**

- ch Pryd gwnaethoch gais i ymestyn eich caniatâd i aros?**

Gweithio a byw dramor

a Ym mha wlad rydych yn byw fel arfer?

b Ydych chi wedi bod dramor am fwy na 4 wythnos ar y tro yn ystod y 3 blynedd diwethaf?

Ystyr 'dramor' yw y tu allan i Brydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

Dylech gynnwys unrhyw wyliau a barodd am fwy na 4 wythnos.

Do Atebwch y cwestiynau isod.

Na Ewch i **tudalen 9**.

I ba wlad aethoch chi?

Pryd aethoch chi?

O / / i / /

Pam aethoch chi?

Er enghraifft, gwyliau, gwaith, triniaeth feddygol, fel aelod o Lluoedd EM neu fel aelod o deulu rhywun sydd yn Lluoedd EM.

Pryd aethoch chi i ffwrdd, a oeddech chi'n bwriadu dychwelyd?

Oeddwn

Na

Ticiwch y blwch hwn os oes mwy o gyfnodau dramor y dylech ddweud wrthym amdanynt.

Defnyddiwch ddarn o bapur ar wahân i ddweud wrthym pryd aethoch chi, ble aethoch chi, pam aethoch chi ac a oeddech chi'n bwriadu dychwelyd. Rhowch eich enw, dyddiad geni a rhif Yswiriant Gwladol ar frig y darn o bapur.

Gweithio a byw dramor parhad

- c Ydych chi, neu aelod o'ch teulu, yn cael unrhyw bensiwn neu fudd-dal gan wlad arall yn yr AEE neu'r Swistir?**
- Ydw/ydy
- Na
- Ddim yn gwybod

Ystyr 'aelod o'ch teulu' yw gŵr, gwraig, partner sifil neu riant rydych yn ddibynnol arno.

Darllenwch unrhyw lythyrau rydych wedi'u cael gan ble rydych wedi gweithio, neu gofynnwch i aelodau o'ch teulu amdano.

- ch Ydych chi, neu aelod o'ch teulu, yn gweithio neu'n talu yswiriant i wlad arall yn yr AEE neu'r Swistir?**
- Ydw/ydy
- Na
- Ddim yn gwybod

Ystyr 'aelod o'ch teulu' yw gŵr, gwraig, partner sifil neu riant rydych yn ddibynnol arno.

Ystyr yswiriant yw yswiriant sy'n gysylltiedig â'ch gwaith, fel Yswiriant Gwladol y DU. Nid yw'n golygu yswiriant fel yswiriant gwyliau, yswiriant teithio nac yswiriant modur.

Bod yn yr ysbyty, hosbis, gofal preswyl neu ofal nyrsio

Os ydych yn unrhyw un o'r llefydd canlynol pan fyddwch yn gwneud cais, gall effeithio ar pryd a beth y gallwn eich talu. Hyd yn oed os ydych yn byw yn unrhyw un o'r llefydd canlynol dylech wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol o hyd. Yna gallwn benderfynu os gall unrhyw Daliad Annibyniaeth Personol gael ei dalu, ac o pa bryd.

Bod yn yr ysbyty neu hosbis

a Ydych chi mewn ysbyty neu hosbis fel claf mewnol nawr?

Ydw Ewch i **cwestiwn c.**

Na Ewch i **cwestiwn b.**

b Ydych chi wedi bod mewn ysbyty neu hosbis yn ystod y 4 wythnos diwethaf?

Do Ewch i **cwestiwn c.**

Na Ewch i **tudalen 11.**

c Pryd aethoch chi i mewn?

ch Os ydych chi mewn ysbyty, ydych chi'n glaf preifat sy'n talu eich holl gostau eich hun?

Ydw

Na

Ddim yn gwybod

d Rhowch enw a chyfeiriad llawn yr ysbyty neu'r hosbis.

Cod post

Bod mewn gofal preswyl neu ofal nyrsio

a Ydych chi'n byw mewn cartref gofal, cartref nyrsio, tŷ gwarchod, coleg preswyl neu hostel nawr?

Ydw Ewch i **cwestiwn c.**

Na Ewch i **cwestiwn b.**

b Ydych chi wedi bod mewn cartref gofal, cartref nyrsio, tŷ gwarchod, coleg preswyl neu hostel yn ystod y 4 wythnos diwethaf?

Do Ewch i **cwestiwn c.**

Na Ewch i **tudalen 12.**

c Pryd aethoch chi i mewn?

ch Rhowch enw a chyfeiriad llawn y lle rydych chi'n aros.

Cod post

d Ydych chi'n talu'r holl gostau am aros yno heb help gan awdurdod lleol, awdurdod iechyd, awdurdod addysg, yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) nac elusen?

Ydw Ewch i **tudalen 12.**

Na Ewch i **cwestiwn dd.**

Ddim yn gwybod Ewch i **tudalen 12.**

dd Pwy sy'n talu costau eich arhosiad?

Ticiwch y blwch sy'n berthnasol:

Awdurdod lleol Ewch i **cwestiwn e.**

Awdurdod iechyd Ewch i **cwestiwn f.**

Awdurdod addysg Ewch i **cwestiwn f.**

Elusen Ewch i **cwestiwn f.**

DWP Ewch i **tudalen 12.**

e A oes gennych gytundeb â'r awdurdod lleol i ad-dalu unrhyw gostau?

Oes

Na

Ddim yn gwybod

f Rhowch enw'r awdurdod lleol, awdurdod iechyd, awdurdod addysg neu'r elusen sy'n talu.

Y prif weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n eich cefnogi

Dywedwch wrthym am y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a all roi'r wybodaeth orau i ni am eich cyflwr iechyd a sut mae'n effeithio arnoch? Er enghraifft, meddyg teulu, meddyg ysbyty neu ymgynghorydd, neu nyrs arbenigol.

Beth yw ei swydd?

Beth yw ei enw?

Cyfeiriad

Er enghraifft, cyfeiriad y ganolfan iechyd, meddygfa neu'r ysbyty lle mae'n gweithio.

Cod post

Rhif ffôn

Cofiwch gynnwys y cod deialu.

Gweithiwr gofal iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol pellach sy'n cefnogi chi

Dywedwch wrthym os oes gweithiwr gofal iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol arall neu rywun arall y gallwn gysylltu â hwy a all ddweud wrthym am eich salwch. Er enghraifft, nyrs seiciatrig gymunedol, therapydd galwedigaethol, ffisiotherapydd, gweithiwr cymorth, gweithiwr cymdeithasol, cynghorydd, gofalwr, neu aelod o'r teulu neu ffrind.

Beth yw ei swydd?

Beth yw ei enw?

Cyfeiriad

Er enghraifft, cyfeiriad y ganolfan iechyd, meddygfa neu'r ysbyty lle mae'n gweithio.

Cod post

Rhif ffôn

Cofiwch gynnwys y cod deialu.

Peidiwch â phoeni os ydych yn gweld mwy nag un gweithiwr gofal iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol. Byddwn yn gofyn i chi am fwy o wybodaeth am y bobl rydych yn eu gweld yn y cam nesaf o'r broses gwneud cais.

Caniatâd

Efallai y byddwn am gael gwybodaeth am eich cyflwr iechyd neu'ch anabledd a sut mae'n effeithio arnoch wrth i ni ymdrin â'r canlynol:

- eich cais am Daliad Annibyniaeth Personol
- unrhyw gais i ailystyried neu apelio yn erbyn penderfyniad am eich cais.

Efallai y byddwn am gysylltu â'ch meddyg teulu, neu bobl neu sefydliadau eraill, i gael y wybodaeth hon.

Nid oes rhaid i chi gytuno i ni gysylltu â'r bobl neu'r sefydliadau hyn. Os na fyddwch yn cytuno, efallai na fydd gennym yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom i wneud penderfyniad am eich cais.

Ydych chi'n cytuno i'r canlynol:

- **gallwn ni, neu rywun sy'n gweithio ar ein rhan, ofyn i'ch meddyg teulu, neu bobl neu sefydliadau eraill, am y wybodaeth hon**
- **gall eich meddyg teulu, neu bobl neu sefydliadau eraill, roi'r wybodaeth hon i ni, neu rywun arall sy'n gweithio ar ein rhan?**

Ydw

Na

Llofnod

Dyddiad

Sut y byddwn yn eich talu

Rydym yn gofyn am fanylion eich cyfrif cyn i ni benderfynu ar gais fel y gallwn eich talu ar unwaith os byddwch yn gymwys i gael budd-dal. Nid yw hyn yn gwarantu y byddwch yn cael Taliad Annibyniaeth Personol.

Rhaid i chi ddarllen y wybodaeth yn y llythyr a gawsoch gyda'r ffurflen hon cyn i chi lenwi manylion y cyfrif.

Rhowch fanylion y cyfrif isod.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn llenwi pob blwch yn gywir, gan gynnwys rhif rôl neu rif cyfeirnod y gymdeithas adeiladu, os oes gennych un. Os byddwch yn rhoi'r manylion cyfrif anghywir i ni efallai y bydd oedi cyn i chi gael eich taliad neu gallech golli arian.

Gallwch ddod o hyd i fanylion eich cyfrif ar eich llyfr siec neu ar eich cyfriflenni banc. Os nad ydych yn siŵr am fanylion y cyfrif, gofynnwch i'r banc neu'r gymdeithas adeiladu.

Enw deiliad y cyfrif

Rhowch enw deiliad y cyfrif yn union fel y mae'n ymddangos ar y cerdyn debyd, llyfr siec neu'r gyfriflen.

Cod didoli

Rhowch y chwe rhif i ni, er enghraifft 12 34 56.

--	--	--	--	--	--	--	--

Rhif y cyfrif

Mae'r rhan fwyaf o rifau cyfrif yn cynnwys 8 rhif. Os yw rhif eich cyfrif yn cynnwys llai na 10 rhif, llenwch y rhifau o'r chwith.

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Rhif rôl neu rif cyfeirnod y gymdeithas adeiladu

Os ydych yn defnyddio cyfrif cymdeithas adeiladu efallai y bydd yn rhaid i chi roi rhif rôl neu rif cyfeirnod i ni. Gall hwn fod yn gymysgedd o lythrennau a rhifau a gall fod hyd at 18 o gymeriadau o hyd. Os nad ydych yn siŵr a oes gan y cyfrif rif rôl neu rif cyfeirnod, gofynnwch i'r gymdeithas adeiladu.

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Rheolau arbennig ar gyfer pobl â salwch terfynol

Mae gennym reolau arbennig i bobl sydd â salwch terfynol. Mae hyn yn golygu pobl ag afiechyd cynyddol ac nad oes disgwyl iddynt fyw am fwy na chwe mis arall.

Ydych chi am wneud cais o dan y rheolau arbennig ar gyfer pobl â salwch terfynol?

Ydw Atebwch y cwestiynau isod.

Na Ewch i **tudalen 17**.

Beth yw eich salwch?

Mae'n bwysig eich bod yn anfon ffurflen **DS1500** atom i ategu eich cais os nad ydych wedi anfon un am y budd-dal hwn neu unrhyw fudd-dal arall yn ystod y chwe mis diwethaf.

Adroddiad am eich cyflwr meddygol yw'r adroddiad **DS1500**. Ni fydd yn rhaid i chi dalu amdano. Gallwch ofyn i dderbynnnydd y meddyg, nyrs neu weithiwr cymdeithasol drefnu hyn ar eich rhan. Ni fydd yn rhaid i chi weld y meddyg.

Ydych chi am anfon adroddiad **DS1500** atom i ategu eich cais?

Ydw

Na

Ddim yn gwybod

Peidiwch ag aros nes y byddwch wedi cael adroddiad **DS1500**. Parhewch â'ch cais. Dychwelwch yr adroddiad **DS1500** atom cyn gynted â phosibl.

Rheolau arbennig ar gyfer pobl â salwch terfynol parhad

Symud o gwmpas

Dim ond os ydych yn gwneud cais o dan y rheolau arbennig ar gyfer pobl â salwch terfynol y dylech ateb y cwestiynau hyn.

Efallai y byddwch yn gallu cael elfen symudedd y Taliad Annibyniaeth Personol os ydych yn cael anhawster wrth symud neu os oes angen help arnoch i symud o gwmpas.

A oes angen rhywun arall arnoch chi i gynllunio unrhyw daith rydych am ei gwneud?

Oes

Na

Weithiau

Ydych chi'n cael anhawster yn dilyn llwybr taith gyfarwydd?

Er enghraifft, a oes angen y canlynol arnoch

- rhywun arall gyda chi
- ci cymorth, neu
- cymhorthion, fel ffon wen?

Ydw

Na

Weithiau

Ydych chi'n cael anhawster wrth gerdded pellteroedd byr o hyd at 50 metr?

Mae hyn tua hyd pum bws.

Ydw

Na

Weithiau

Ydych chi'n cael anhawster wrth gerdded pellteroedd byr o hyd at 20 metr?

Mae hyn tua hyd dau fws.

Ydw

Na

Weithiau

Y cam nesaf o wneud cais – os ydych wedi gwneud cais o dan y rheolau arbennig ar gyfer pobl â salwch terfynol

Efallai y byddwn yn cysylltu â'r gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol rydych wedi dweud wrthym amdano i gael rhagor o wybodaeth am eich cais. Ewch i **tudalen 19**.

Y cam nesaf o wneud cais

Os nad ydych wedi gwneud cais o dan y rheolau arbennig ar gyfer pobl â salwch terfynol

Bydd y cam nesaf o wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol yn dechrau pan fyddwn yn anfon ffurflen arall atoch drwy'r post fel y gallwch ddweud wrthym sut mae eich cyflwr yn effeithio arnoch. Bydd angen i chi lenwi'r ffurflen a'i hanfon yn ôl atom.

Os credwch y bydd angen help neu gymorth arnoch i lenwi'r ffurflen, cysylltwch â sefydliad cymorth lleol cyn gynted â phosibl er mwyn trefnu help.

Os ydych yn llofnodi'r ffurflen ar ran rhywun arall ewch i tudalen 18.

Os ydych yn llofnodi'r ffurflen i chi'ch hun, darllenwch y wybodaeth a chwblhewch y cwestiynau isod.

Rydym yn deall bod rhai pobl yn ei chael hi'n anodd dychwelyd ffurflenni oherwydd cyflwr iechyd meddwl neu ymddygiadol, anhawster dysgu, anhwylder datblygu neu broblemau cofio. Gallai hyn olygu unrhyw fath o anhawster dysgu neu ddementia. Gallai olygu pryder neu iselder, anhwylder obsesiynol cymhellol, seicosis, sgitsoffrenia neu anhwylder personoliaeth, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), anhwylder ar y sbectrwm awtistig, neu oedi datblygiadol.

Ystyr cyflyrau iechyd meddwl yw, er enghraifft

- iselder, pryder, anhwylder straen wedi trawma (PTSD), anhwylder obsesiynol cymhellol (OCD), seicosis, sgitsoffrenia, anhwylder personoliaeth.

Ystyr cyflyrau ymddygiadol yw, er enghraifft

- anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), anhwylder ymddygiad.

Ystyr anhawster dysgu yw, er enghraifft

- syndrom Down, syndrom X frau.

Ystyr anhwylder datblygu yw, er enghraifft

- anhwylder ar y sbectrwm awtistig, oedi datblygiadol, anhwylder lleferydd neu iaith.

Ystyr problemau cofio yw, er enghraifft

- unrhyw fath o ddementia - er enghraifft clefyd Alzheimer, dementia gyda chyrrff Lewy, dementia fasgwlaidd, dementia sy'n gysylltiedig â chyflyrau eraill. Problemau cofio o ganlyniad i anaf i'r ymennydd ar ôl damwain.

A oes gennych gyflwr fel hyn?

Oes

Na

Ddim yn gwybod

Ydych chi'n gweld seiciatrydd neu nyrs seiciatrig gymunedol, seicolegydd neu gwnsler am eich cyflwr?

Ydw

Na

Ddim yn gwybod

Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)

a Ydych chi'n cael Lwfans Byw i'r Anabl, neu a ydych erioed wedi cael dyfarniad o Lwfans Byw i'r Anabl?

Ydw Ewch i **gwestiwn b**.

Na Ewch i **dudalen 19**.

b A oes unrhyw dystiolaeth feddygol o'ch cais Lwfans Byw i'r Anabl rydych yn credu y gallai ein helpu i ddeall sut y mae eich anabledd yn effeithio arnoch?

Gallai'r dystiolaeth hwn fod yn adroddiad gan: feddyg teulu, ysbyty, ysgol neu weithiwr gofal iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol arall. Os ydych wedi cael archwiliad meddygol ar gyfer Lwfans Byw i'r Anabl gallem ddefnyddio'r adroddiad gan yr ymarferydd archwlio meddygol (EMP). Os defnyddiwyd adroddiad Lwfans Cyflogaeth a Chymorth i gefnogi eich cais Lwfans Byw i'r Anabl gallem ddefnyddio'r adroddiad hwn.

Na Ewch i **dudalen 19**. Ni fyddwn yn defnyddio unrhyw dystiolaeth feddygol o'ch cais Lwfans Byw i'r Anabl.

Oes Defnyddiwch y dystiolaeth feddygol ganlynol (ticiwch bob un sy'n berthnasol):

Adroddiad Meddyg Teulu

Adroddiad ysbyty

Adroddiad ysgol

Adroddiad Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)

Adroddiad ymarferydd archwilio meddygol (EMP)

Adroddiad ymgynghorydd neu lythyr ategol

Adroddiad gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol

Tystiolaeth feddygol arall.
Dywedwch wrthym pa dystiolaeth feddygol arall

Rwyf eisiau i chi ddefnyddio'r holl dystiolaeth feddygol o fy nghais Lwfans Byw i'r Anabl.

Rwyf eisiau gweld yr holl dystiolaeth feddygol o fy nghais Lwfans Byw i'r Anabl cyn i mi benderfynu.

Os gofynnir, gallwn gael eich ffeil Lwfans Byw i'r Anabl a gwneud yn siŵr fod y dystiolaeth feddygol hon yn cael ei defnyddio. Oherwydd y cyfreithiau ynglŷn â Diogelu Data a pha mor hir rydym yn cael cadw dogfennau, efallai na fydd yr hen dystiolaeth ar gael. Os yw tystiolaeth yn dal i fod ar eich ffeil Lwfans Byw i'r Anabl, byddwn yn gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei ddefnyddio.

Y Cynllun Motability

Mae'r Cynllun Motability yn caniatáu i bobl anabl llogi car, sgwter neu gadair olwyn â phŵer yn gyfnewid am ryw faint neu eu holl daliadau symudedd.

Os ydych yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Motability, hoffech i ni bostio gwybodaeth i chi am yr help y gallant ei gynnig?

Ni fyddwn yn rhannu eich manylion personol gyda Motability.

Ie

Na

Os ydych yn penderfynu nad ydych am gael gwybodaeth am Motability yn dyfodol, cysylltwch â ni ar **0800 121 4433** er mwyn rhoi gwybod i ni.

Beth i'w wneud nawr

Sicrhewch eich bod wedi ateb pob cwestiwn sy'n berthnasol i chi.

Darllenwch y wybodaeth a gawsoch gyda'r ffurflen hon. Mae'n rhoi gwybod i chi sut rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth a ble i fynd am help a chyingor am y budd-dal hwn a budd-daliadau eraill.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi **llofnodi'r adran caniatâd** ar **tudalen 13**.

Nawr darllenwch a llofnodwch y datganiad isod.

Datganiad

Ni allwn dalu unrhyw fudd-dal nes y byddwch wedi llofnodi'r datganiad a dychwelyd y ffurflen atom. Dychwelwch y ffurflen wedi'i llofnodi ar unwaith.

Rwy'n datgan bod y wybodaeth a roddir gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

Rwy'n deall y gellir atal fy mudd-dal ac y gellir dwyn achos neu gamau eraill yn fy erbyn os byddaf yn rhoi gwybodaeth sy'n anwir yn fwriadol.

Rwy'n deall bod yn rhaid i mi hysbysu'r swyddfa sy'n talu fy Nhaliad Annibyniaeth Personol ar unwaith am unrhyw beth a allai effeithio ar fy hawl i gael y budd-dal hwn, neu'r swm a gaf.

Rwy'n deall y gall yr Adran Gwaith a Phensiynau ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddi ar hyn o bryd neu y gall ei chael yn y dyfodol i benderfynu p'un a oes gennyf hawl i gael:

- y budd-dal rwy'n gwneud cais amdano
- unrhyw fudd-dal arall rwyf wedi gwneud cais amdano
- unrhyw fudd-dal arall y gallaf wneud cais amdano neu y gellir ei ddyfarnu i mi yn y dyfodol.


Dyma fy nghais am Daliad Annibyniaeth Personol.

Llofnod

Dyddiad

Printiwch eich enw yma

Anfonwch y ffurflen gais yn ôl atom ar unwaith. Byddwch yn gweld y cyfeiriad i dychwelyd y ffurflen hon iddo ar y dudalen olaf. Rhewch y ffurflen hon yn yr amlen a gawsoch fel bod y cyfeiriad yn ymddangos drwy ffenestr. Nid oes angen stamp arni.



Dychwelwch y ffurflen wedi'i chwblhau i'r cyfeiriad hwn

Rhowch y ffurflen wedi'i chwblhau yn yr amlen a ddarperir, gan wneud yn siŵr y gellir gweld y cyfeiriad drwy ffenestr yr amlen. Nid oes angen stamp ar yr amlen oni bai eich bod yn byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Os oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, gallwch gael gwybodaeth am y Taliad Annibyniaeth Personol drwy fynd i wefan Taliad Annibyniaeth Personol yn www.gov.uk/taliad-annibyniaeth-personol-pip